







## Cyngerdd Nadolig

Mae'r ymarferion Cyngerdd Nadolig yn mynd yn eu blaenau'n dda ac edrychwn ymlaen at berfformio i'n teuluoedd wythnos nesaf. Dyma'r manylion pwysig i chi:

1. **Dyddiad** : Nos Iau, 12fed o Ragfyr 2024
2. **Amser** : Drysau'n agor 5:30yh, Cychwyn 6:30yh
3. **Lleoliad** : Neuadd Fawr, Canolfan y Celfyddydau
4. **Manylion gollwng y plant/casglu** – bydd y wybodaeth yma'n eich cyrraedd mewn neges ar wahân
5. **Pris mynediad** : £5 i oedolion, £2 plant ysgol uwchradd (plant Ysgol Gymraeg am ddim) Tocynnau mynediad wrth y drws – dim modd archebu ymlaen llaw
6. Dewch ag **arian parod** os gwelwch yn dda. Bydd raffl ar werth wrth y drws hefyd.

Mae manylion gwisgoedd eisoes wedi eich cyrraedd gan yr athrawon dosbarth.

## *Christmas Concert*

*The Christmas Concert rehearsals are progressing well and we look forward to performing for our families next week. Here are the important details for you:*

1. ***Date** : Thursday evening, 12th December*
2. ***Time** : Doors open 5:30pm, starts at 6:30pm*
3. ***Venue** : Great Hall, Arts Centre*
4. ***Children's drop off/collection details** - this information will reach you in a separate message*
5. ***Admission price**: £5 for adults, £2 for secondary school children (Ysgol Gymraeg children free) Admission tickets at the door - no advance booking available*
6. *Please bring **cash**. There will also be a raffle on sale at the door.*

*The costume details have already been distributed by the class teachers*

---



## Canu carolau yn y gymuned

Mae Blwyddyn 4 wedi derbyn gwahoddiad i ganu carolau mewn cartref ar gyfer yr henoed ar y 17eg o Ragfyr. Byddwn yn cerdded i Drefechan ac yn ôl os fydd y tywydd yn caniatáu.

## *Christmas Carol singing in the community*

*Year 4 children have been invited to sing at a home for the elderly on the 17th of December. We will be walking to Trefechan and back, weather permitting.*

---



## Cinio Nadolig a Siwmper Nadolig

Bydd y gegin yn paratoi gwledd ar gyfer ein cinio Nadolig ar ddydd Mercher y 18fed o Ragfyr. Mae croeso i bawb gael cinio – os ydy'r plant fel arfer yn bwyta pecyn bwyd ac yn dymuno cael cinio ar y diwrnod mae angen iddynt ddewis yr opsiwn hynny ar y sgrîn ParentPay yn ystod cofrestru ar y bore hwnnw.

## *Christmas Dinner and Christmas Jumper*

*The kitchen will be preparing the usual feast for our Christmas dinner on Wednesday the 18th of December. Everyone is welcome to have lunch - if the children usually eat a packed lunch and wish to have Christmas Dinner on the day they need to select that option on the ParentPay screen during registration on that morning.*

---



**Sinema** (Derbyn – Blwyddyn 6)
Bydd pawb heblaw y Meithrin yn treulio prynhawn y 19eg o Ragfyr yn y Sinema yn y dref. Gofynnwn yn garedig am gyfraniad o £4.50 os gwelwch yn dda. Cofiwch wirio eich cyfrif ParentPay. Dyma'r cyfraniad ariannol olaf y byddwn yn gofyn amdano rhwng nawr a'r Nadolig. Diolch

***Cinema*** *(Reception – Year 6)*
*Everyone except the Nursery will spend the afternoon of the 19th of December at the Cinema in town. We kindly ask for a donation of £4.50 please. Remember to check your ParentPay account. This is the final monetary contribution we will be asking for between now and Christmas. Thank you.*

---



**Nadolig Llawen**
Bydd yr ysgol yn cau ar gyfer gwyliau'r Nadolig am 3:30yp ar ddydd Gwener y 20fed o Ragfyr 2024, ac yn ail-agor ar ddydd Llun y 6ed o Ionawr 2025.

***Merry Christmas***
*The school will close for the Christmas holidays at 3:30pm on Friday the 20th of December 2024 and reopen on Monday the 6th of January 2025.*

---



**Calendr Hanner Tymor**
Dyma'r ddolen i'r Calendr Hanner Tymor 🖰 ar gyfer yr hanner tymor hwn.
Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr ac yn byw'n barhaol ar wefan yr ysgol.

***Half Term Calendar***
*Here is the link to the Half Term Calendar 🖰 for this half term. A link to the calendar is included in each letter and lives permanently on the school's website.*

---


**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**

***If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.***

**Yn gywir,**
**Gareth L James**
**Pennaeth Dros Dro / *Acting Headteacher***
**06/12/2024**
🖰 www.ysgolgymraeg.cymru






@YrYsgolGymraeg

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY231HL
swyddfa@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk
Pennaeth Dros Dro / *Acting Headteacher:* Mr Gareth L James

01970 617613